Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr-Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD	**NOTICE OF MEETING**
PWYLLGOR PENODIADAU	**APPOINTMENTS COMMITTEE**
DYDD GWENER, 5 TACHWEDD 2021 am 10.00 o'r gloch yb	**FRIDAY, 5 NOVEMBER, 2021 at 10.00 a.m.**
CYFARFOD RHITHIOL (AR HYN O BRYD NID OES MODD I'R CYHOEDD FYNYCHU'R CYFARFOD)	**VIRTUAL MEETING (AT PRESENT MEMBERS OF THE PUBLIC ARE UNABLE TO ATTEND)**
Swyddog Pwyllgor	**Mrs. Mairwen Hughes 01248 752516** **Committee Officer**

AELODAU / MEMBERS
Cynghorwyr / Councillors:-

Y Grwp Annibynnol/The Independent Group

Richard A. Dew, Ieuan Williams **(Cadeirydd/Chair)**

Plaid Cymru / The Party of Wales

T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, R. Meirion Jones, Llinos M. Huws, Bob Parry OBE FRAgS **(Is-gadeirydd/Vice-Chair)**

Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents

Kenneth P Hughes, Aled M Jones

Plaid Lafur Cymru/Wales Labour Party

Glyn Haynes

R H A G L E N

1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 COFNODION (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfodydd canlynol:-

- Cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 12 Hydref, 2021;
- Cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 21 Hydref, 2021.

3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD (Tudalennau 5 - 6)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol:-

"O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12A, Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."

4 APWYNTIO STAFF (Tudalennau 7 - 188)

Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

- Ystyried y ceisiadau ar gyfer y swydd uchod.

  Mae copiau o'r Disgrifiad Swydd, y Manylion Personol a ffurflenni cais ynghlwm.

- Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro.

PWYLLGOR PENODIADAU

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2021

YN BRESENNOL: Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)
Cynghorydd Bob Parry OBE FRAgS (Is-gadeirydd)

Cynghorwyr R Dew, T Ll Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones ac R Meirion Jones.

WRTH LAW: Prif Weithredwr,
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,
Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,
Rheolwr Adnoddau Dynol (CW),
Swyddog Pwyllgor (MEH).

YMDDIHEURIADAU: Cynghorydd Glyn Haynes

HEFYD YN BRESENNOL: -

---

1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

2 COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Awst, 2021 fel cofnod cywir

3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-

"O dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeedig."

CYTUNODD y Pwyllgor drafod eitemau 4, 5 a 6 gyda'i gilydd.

6 PENODIADAU STAFF

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro mewn perthynas â'r swydd uchod.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro bod y Swydd Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau a gynhaliwyd ar 31 Awst, wedi ei hysbysebu ar 3 Medi, 2021 tan 27 Medi, 2021. Adroddodd ymhellach, yn unol â'r drefn recriwtio safonol, y ffurfiwyd rhestr fer annibynnol yn seiliedig ar y wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys yn y ceisiadau a dderbyniwyd. Yr argymhelliad oedd y dylid ail hysbysebu'r swydd am gyfnod o ddwy wythnos. Cafodd ei argymell hefyd i'r Pwyllgor Penodiadau ymgymryd â phroses na fyddai fel arfer yn cael ei hymgymryd â hi ar gyfer Swydd graddfa 10 ar y

sail ei bod yn swydd statudol. Mae'r broses a gafodd ei hargymell yr un fath â'r hyn sydd wedi'i mabwysiadu gan y Pwyllgor Penodiadau ar gyfer swyddi tebyg, sy'n cynnwys tri cham:-

- Cyfweliad allanol yn seiliedig ar broses brofi seicometrig;
- Cyfweliad proffesiynol i'w gynnal gan y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro neu rywun priodol arall a'r Pennaeth Proffesiwn Adnoddau Dynol, fel ffordd o gadarnhau cywirdeb cynnwys y ffurflenni cais;
- Cyfweliad gyda'r Pwyllgor Penodiadau er mwyn gallu gwneud penderfyniad pa ymgeisydd, os unrhyw un, a ddewisir i'w penodi yn dilyn y ddau gam blaenorol a gyflwynir manylion amdanynt mewn adroddiad cyn y cynhelir y cyfweliadau ffurfiol gyda'r Pwyllgor.

PENDERFYNWYD:-

- **Ail hysbysebu'r swydd am gyfnod o ddwy wythnos a bod y ceisiadau a dderbyniwyd yn cael eu cadw ar gyfer ystyriaeth.**
- **Bod y broses tri cham yn cael ei chefnogi yn unfrydol fel y nodwyd yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor.**

CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS
CADEIRYDD

PWYLLGOR PENODIADAU

Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2021

YN BRESENNOL:	Y Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd) Y Cynghorydd Bob Parry OBE FRAgS (Is-gadeirydd) Y Cynghorwyr R Dew, Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, K P Hughes, Llinos Medi Huws ac A M Jones.
WRTH LAW:	Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid, Rheolwr Adnoddau Dynol (CW), Swyddog Pwyllgor (MEH).
YMDDIHEURIADAU:	Y Cynghorwyr Vaughan Hughes ac R Meirion Jones
HEFYD YN BRESENNOL:	Dim

---

1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

2 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-

"O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12A, Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."

3 PENODI STAFF

Prif Weithredwr

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid.

Adroddodd y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid bod y Prif Weithredwr presennol wedi cadarnhau ei bwriad i ymddeol o'i swydd ddiwedd mis Mawrth 2022.

PENDERFYNWYD:-

- **Hysbysebu'r swydd Prif Weithredwr yn allanol;**
- **Y Disgrifiad Swydd a'r Fanyleb Person i gyd-fynd ag Atodiad 1 yr adroddiad;**
- **Cyflog y swydd i'w hysbysebu yn unol â'r cyflog presennol o £120,526 y flwyddyn gyda'r dyfarniad cyflog ar gyfer 2021 i'w ychwanegu unwaith y bydd wedi'i gytuno;**
- **Yr amodau a thelerau i fod fel yr amlinellir yn Atodiad 2 o'r adroddiad hwn;**
- **Y swydd i gael ei hysbysebu am gyfnod olynol o bedair wythnos;**
- **Y swydd i gael ei hysbysebu yn unol â pholisi arferol y Cyngor ar gyfer swyddi Prif Swyddogion, sef drwy wefan yr Awdurdod, drwy ficro-safle penodol ynghyd ag ar y cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys gwefannau Indeed a lleol.cymru, ym mhapur**

newydd The Guardian, yng nghylchgrawn Golwg, a'i hysbysebu drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ynghyd â hysbysiad uniongyrchol i'r pum prif gyngor arall yng ngogledd Cymru a Llywodraeth Cymru;

- **Ar ôl i'r hysbyseb gau, bydd dau Swyddog o'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol yn llunio rhestr fer yn annibynnol ar ei gilydd;**
- **Ar ôl cwblhau'r gwaith o lunio rhestr fer bydd y Pwyllgor yn cyfarfod eto er mwyn cymeradwyo ymgeiswyr ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad ac unrhyw gamau pellach sydd eu hangen fel rhan o'r broses benodi. Bydd angen i'r broses ddethol derfynol gynnwys cymeradwyaeth gan y Cyngor Llawn.**

Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS
CADEIRYDD

PRAWF BUDD Y CYHOEDD
PUBLIC INTEREST TEST

(Teitl yr Adroddiad/Title of Report) ***Staff Appointments***

Paragraff(au) Llywodraeth Leol 1972 Paragraph(s) 12, 13, 14 Act 1972	Atodlen 12A Deddf Schedule 12A Local Government
Y PRAWF – THE TEST	
Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-	Budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-
Mae hwn yn fater sy'n effeithio ar strwythur rheoli'r Cyngor ac, fel y cyfryw, mae gan y cyhoedd ddiddordeb uniongyrchol mewn cael eu hysbysu am faterion sy'n ymwneud â darparu, cost ac effeithionrwydd gwasanaethau yn cynnwys arbedion sy'n ymwneud â'r rheini. This is a matter which affects the Council's management structure and , as such, the public has a direct interest in being informed about matters which relate to the delivery, cost and efficiency of services including savings relating thereto.	Mae yna ddisgwyliad cyfreithiol y bydd materion sy'n ymwneud â gweithwyr unigol y Cyngor yn cael eu trin yn gyfrinachol. Mae gan y Cyngor ddyletswyd o ymddiriedaeth a hyder mewn perthynas â'i ymwneud â'i staff ac mae'r wybodaeth yn yr adroddiad sydd ynghlwm. Mae i'r adroddiad oblygiadau cyflogaeth i'r swyddogion sy'n cael eu heffeithio ac fe all toriad dianghenriad mewn cyfrinached adael y Cyngor, fel cyflogwr, yn agored i gamau cyfreithiol. There is a legal expectation that matters relating to individual employees of the Council are to be treated confidentially. The Council has a duty of trust and confidence in relation to its dealings with its staff and the information in the attached report. This report has employment implications for those Officers affected and any unnecessary breach of confidentiality may leave the Council, as employer, open to legal action.

Argymhelliad - Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na/llai na* budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth. [* - dilëwch y geiriau amherthnasol]
Recommendation - The public interest in maintaining the exemption outweighs/does not outweigh* the public interest in disclosing the information. [* - delete as appropriate]

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

Yn rhinwed paragraff(au) 12, 13, 14 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywordraeth Leol 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

Yn rhinwed paragraff(au) 12, 13, 14 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywordraeth Leol 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

Yn rhinwed paragraff(au) 12, 13, 14 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywordraeth Leol 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

Yn rhinwed paragraff(au) 12, 13, 14 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywordraeth Leol 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

Yn rhinwed paragraff(au) 12, 13, 14 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywordraeth Leol 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

Yn rhinwed paragraff(au) 12, 13, 14 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywordraeth Leol 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

Yn rhinwed paragraff(au) 12, 13, 14 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywordraeth Leol 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank